## Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol 2020/21

Paratoir y datganiad cyflogau hwn yng ngoleuni argymhellion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â thryloywder ynglŷn â thaliadau staff uwch yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Diffiniadau**

**Uwch Swyddi**, i ddibenion y datganiad polisi cyflogau blynyddol, swyddi aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol yw'r rhain.
**Gweithwyr ar y cyflog isaf**, i ddibenion y datganiad polisi cyflogau blynyddol, swyddi Pwynt 3, Gradd 1 ar Raddfa Taliadau HERA yw'r rhain.

Mabwysiadwyd y diffiniadau hyn am eu bod yn adlewyrchiad hollol gywir o hyd a lled poblogaeth gweithwyr y Brifysgol.

Ar ben hyn, gan fod y Brifysgol wedi'i hachredu'n gyflogwr Gwir Gyflog Byw, nid oes un o'r gweithwyr yn cael cyflog is na'r hyn a ddiffinnir ar gyfer Gradd 3, Pwynt 7, sef £9.50 yr awr ar 31 Gorffennaf 2021.

**Y gymhareb**

Ar sail y diffiniadau hyn, y gymhareb rhwng cyfartaledd cyflogau'r uwch swyddi a'r swyddi cyflog isaf yw 1:**6.69**. Mae hyn yn cymharu â chymhareb y llynedd o 1:7.06.

**Tystiolaeth o fforddiadwyedd a gwerth am arian:**

Nifer yr uwch swyddi sydd â phecyn taliadau dros £100,00, yn seiliedig ar gyflog sylfaenol yn ogystal ag unrhyw lwfans am gyfrifoldeb ychwanegol ar 31 Gorffennaf 2021:

| | Nifer yr uwch swyddi |
|---|---|
| £100,000-£104,999 | 4 |
| £105,000-£109,999 | 1 |
| £110,000-£114,999 | 0 |
| £115,000-£119,999 | 1 |
| £135,000-£139,999 | 1 |
| £230,000-£234,999 | 1 |

**Rheoli Perfformiad**

Dulliau’r corff o reoli doniau mewnol: mae pob aelod o staff y Brifysgol, waeth beth yw eu cyflog, yn mynd trwy drefn flynyddol y Cynllun Cyfraniad Effeithiol o adolygu perfformiad, sydd yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i fwydo i gynlluniau datblygu gyrfa, anghenion hyfforddi a cheisiadau posibl am gyflog cysylltiedig â pherfformiad (yn achos gradd 10). Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o rwydweithiau, a chynlluniau datblygu arweinyddiaeth a mentora i gefnogi datblygiad a chynnydd gyrfa.

**Cyflog cysylltiedig â pherfformiad**

Mae gan y Brifysgol gynllun cyflog cysylltiedig â pherfformiad, Gwobr Cyfraniad Unigol (ICA) ar gyfer Graddau 1-9 a Gwobr Cyfraniad Unigol (Cynyddran Symud Ymlaen) ar gyfer Gradd 10 a lansiwyd ar 21

Hydref 2021.  Mae'r cynllun hwn yn disodli'r cynllun Cynyddrannau Cyflymedig a Phwyntiau Cyfrannol (AICP) y cytunwyd arno ym mis Medi 2021 gydag undebau llafur cydnabyddedig.

**Cefnogaeth i Staff**

Y prif ddull o ddarparu **cefnogaeth i staff ar gyflogau is** yw bod y Brifysgol wedi dechrau talu'r Gwir Gyflog Byw ym mis Ebrill 2018 a'i bod wedi ei hachredu'n gyflogwr Gwir Gyflog Byw ym mis Hydref 2018. Mae pob aelod o staff y Brifysgol, waeth beth yw eu cyflog, yn mynd trwy drefn flynyddol y Cynllun Cyfraniad Effeithiol o adolygu perfformiad, sydd yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i fwydo i gynlluniau datblygu gyrfa, anghenion hyfforddi a cheisiadau posibl am gyflog cysylltiedig â pherfformiad. Gall yr holl staff, waeth beth fo'u gradd, wneud cais am y cynllun ICA newydd y cyfeirir ato uchod am berfformiad rhagorol.

**Cyfraddau tâl**

Y **pwynt cyflog uchaf** yw Pwynt 9 ar y Raddfa Gradd 10, (https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/all/salary-scales/) sy'n cyfateb i £100,976 (ar 31 Gorffennaf 2021).  Mae nifer fach o uwch swyddi yn cael cyflogau ar raddfa unigolyn sy'n uwch na'r swm hwn. Mae'r cyflogau hyn yn seiliedig ar ddata meincnodi perthnasol o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector Addysg Uwch. Mae Pwyllgor Cyflogau'r Brifysgol yn cael adroddiad blynyddol am bob penodiad a wneir ar y Raddfa Gradd 10 neu gyflogau ar raddfa unigolyn.

Y **pwynt cyflog isaf** yw Pwynt 9 ar y Golofn Dâl Sengl, (https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/all/salary-scales/) sy'n cyfateb i £16,736 (ar 31 Gorffennaf 2021). Ond, yn ymarferol, mae'r unigolion ar y pwynt hwn yn derbyn y Gwir Gyflog Byw cyfredol, sef £18,031 ar hyn o bryd.

**Polisïau Diswyddo**

Yn y gorffennol, mae'r Brifysgol wedi gweithredu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol sydd bellach ddim ond yn agored i staff mewn perygl o gael eu diswyddo yn rhan o achos busnes. Yn achos staff sy'n gadael oherwydd diswyddo gorfodol mae'r Brifysgol yn gwneud taliad statudol Dileu Swydd yn unol â'r graddfeydd cyfredol, (https://www.gov.uk/calculate-your-redundancy-pay).

Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio ag arferion cyfrifo presennol ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol llawn ar daliadau staff uwch yn rhan o'i phrosesau adrodd blynyddol.